

Cynhyrchu cymaint â phosibl o laswellt ar gyfer gwartheg



Cynhyrchu mwy o borfa a gwella'i ansawdd yw nod prosiect pori gwartheg cig eidion ar Fferm Cilrhue, Boncath. Mae'r fferm, sy'n eiddo i Mrs BH Davies a'i meibion John ac Edward Davies ac sy'n cael ei rheoli ganddyn nhw, yn cynnwys 214 erw, ynghyd â 93 erw wedi'i rentu. Tir glas yw'r rhan fwyaf o'r fferm, a bydd tua

20 erw o gnwd cyflawn yn cael ei dyfu yn yr haf. Caiff oddeutu 650 o wartheg eu magu ar y fferm – yn cael eu prynu'n lloi yn y gwanwyn a'r hydref ac yn cael eu pesgi ar y fferm. Y tri brid pennaf yw croesfridiau Friesian, Byrgorn Llaeth a Henffordd.

Nod y prosiect, a reolir gan Nigel Howells Grass Management Consultancy Cyf, yw mesur faint o laswellt sydd ar gael a chynllunio'r strategaeth bori i wneud y gorau o'r hyn sydd ar gael. Cafodd y glaswellt ei fesur bob pythefnos ers dechrau mis Mawrth (yn wythnosol yn ystod mis Mai) wrth ddefnyddio mesurydd plât. Ar ddechrau'r prosiect, crëwyd padogau dros dro wrth ddefnyddio ffensys trydan, a chafodd y padogau hyn eu pori mewn cylchdro. Mae hyn yn caniatáu pori'r glaswellt pan fo'i ansawdd ar ei orau. Hefyd, mae modd cau'r padogau a chadw'r glaswellt ar gyfer silwair os bydd yna ormod o dyfiant ar gyfer pori.

Mae'r tabl isod yn dangos twf y glaswellt yn nau o'r padogau ochr yn ochr â'r cyfartaledd ar gyfer y fferm.

Dyddiad y mesur	Twf y Padog kgCS/ha		
	Fron B	Crofft A	Cyfartaledd y Fferm
26/3/14	21	33	9
8/4/14	26	71	32
22/4/14	34	80	42
6/5/14	98	83	76
14/5/14	75	73	50
21/5/14	102	93	95
27/5/14	141	85	63
3/6/14	70	60	36
18/6/14	71	42	44
2/7/14	60	46	32
17/7/14	35	55	45
25/7/14	91	128	90
6/8/14	60	48	31
Cyfanswm y glaswellt hyd yma tCS/ha	7.5	9.1	6.4

Y gwrtaitaith a ddefnyddiwyd oedd:

23 uned/erw o nitrogen (ar ffurf wrea) ganol mis Mawrth

3000 galwyn/erw o slyri ddechrau mis Ebrill

Ar Fron B, chwistrellwyd nitrogen hylifol (200 uned yr erw) ddiwedd mis Ebrill

Mae Crofft A wedi cael Humber 8 ddwywaith (40 uned yr erw)



Ledled y fferm, mae yna dir glas o wahanol oedran a chynhyrchedd, ond mae defnyddio cnwd cyflawn yn rhoi cyfle i ail-hadu yn rheolaidd. Ar Fron B, defnyddiwyd y dull hau mewn slotiau i dyfu rhygwellt lluosflwydd sy'n hadu'n hwyr – a hynny er mwyn hybu cynhyrchedd. Mae Crofft A yn hen dir glas a heuwyd 20 mlynedd yn ôl â chymysgedd o rygwellt lluosflwydd sy'n hadu'n hwyr a meillion; er gwaethaf ei oedran, mae'n dal i wneud yn dda.

Cafwyd y toriad cyntaf o silwair ganol mis Mehefin. Oherwydd gwell rheolaeth, torrwyd 20% yn fwy o arwynebedd nag yn y blynnydoedd blaenorol, er i'r un nifer o anifeiliaid ei bori. Dyma un fantais o bori padogau mewn cylchdro, oherwydd mae modd tynnu darnau o dir i mewn ac allan o'r cylchdro, gan ddibynnu ar dwf y glaswellt.

Yn ogystal â monitro twf y glaswellt, cafodd cynnydd pwysau byw'r anifeiliaid ei fonitro er mwyn canfod maint ac ansawdd y porthiant. Cedwir y gwartheg mewn grwpiau yn ôl eu hoedran. Hyd yma'r haf hwn, mae pob un wedi llwyddo i ennill 1kg/pen/dydd ar laswellt.



Yn y gorffennol, byddai'r anifeiliaid yn cael eu rhoi dan do i orffen pesgi ar silwair a dwysfwydydd, ond y nod nawr yw pesgi cynifer â phosibl ar laswellt, gan gadw'r silwair ar gyfer y gwartheg sydd dan do dros y gaeaf. Bydd cofnodi pwysau yn rheolaidd yn dangos a yw hyn y gweithio ai peidio, neu a oes angen ychwanegu dwysfwydydd i orffen pesgi rhai anifeiliaid. Hefyd, byddai John ac Edward yn hoffi cael tymor pori hirach a chadw cynifer o anifeiliaid â phosibl yn yr awyr agored dros y gaeaf. Bydd modd gwneud hynny wrth gadw ansawdd y glaswellt mor uchel â phosibl hyd at yr hydref trwy reoli'r pori yn ofalus ac osgoi difrod i'r tir glas fel bod modd troi anifeiliaid allan mor gynnar â phosibl.



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
HCC 01970 625050 hccmpw.org.uk
Nigel Howells 07973 545056



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig Ewrop yn Burdsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government